

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
Dyddiad / Date:	08.04.22
Pwnc / Subject:	Sefydlu statudol athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

- Rydym yn cytuno mewn egwyddor â llawer o gwestiynau'r ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym wedi nodi pwysigrwydd cefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso trwy gymorth pwrpasol o ansawdd uchel sy'n cynnwys rhaglen graidd o ddysgu hanfodol i bawb.
- Dylai fod parhad rhwng addysg gychwynnol athrawon (AGA) a sefydlu.
- Dylai rhaglen sefydlu ystyried y cynnwys os yw'r rhaglenni AGA yng Nghymru. Dylai athrawon sydd newydd gymhwyso sydd wedi hyfforddi y tu allan i Gymru gael cymorth teilwredig i addysgu yn ysgolion Cymru.
- Mae cyfle i gael mentora o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon sydd newydd gymhwyso
- Dylai athrawon sydd newydd gymhwyso gael cyfle i ddatblygu ac atgyfnerthu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gyfnod dysgu sydd wedi'i leoli mewn un ysgol am o leiaf chwe wythnos
- Dylai cyfnod sefydlu ddefnyddio arfer ac ymarferwyr effeithiol mewn AGA, gan gynnwys datblygu arfer dda mewn ysgolion partneriaeth arweiniol

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – A ddylid dileu'r gofyniad presennol fod rhaid gwneud cyfnod sefydlu o dri thymor / 380 sesiwn er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu yn llwyddiannus i ddarparu hyblygrwydd a galluogi athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n dangos arfer effeithiol ac sy'n bodloni'r safonau mewn cyfnod amser byrrach i gwblhau'r cyfnod sefydlu?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod athrawon sydd newydd gymhwyso yn cwmpasu elfennau datblygu 'craidd' hanfodol yn eu cyfnod sefydlu (gweler cwestiwn 11). O ran y dysgu hwn, efallai bydd angen amser i athrawon sydd newydd gymhwyso atgyfnerthu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau. Mae'n bwysig fod yr holl athrawon sydd newydd gymhwyso a'r mentoriaid sefydlu yn gweld sefydlu, nid fel rhywbeth i'w oddef neu'i gwblhau ond fel dechrau taith broffesiynol.

Cwestiwn 2 – A ddylid cyflwyno cyfnod sefydlu gofynnol enwol o un tymor (neu gyfwerth) i alluogi athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n dangos arfer effeithiol ac yn bodloni'r safonau proffesiynol i gwblhau cyfnod sefydlu yn llwyddiannus? (Ni fyddai disgwyl i unrhyw athro sydd newydd gymhwyso gwblhau cyfnod sefydlu yn yr amser gofynnol.)

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	---	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno mewn egwyddor (gweler y nodyn uchod). Dylai unrhyw gyfnod gofynnol yn sicr ddim bod yn fyrrach nag un tymor (neu ddau hanner tymor, fel y disgrifir isod). Mae'n bwysig fod ysgolion yn deall y dylid teilwra cyfnod sefydlu i anghenion yr athro sydd newydd gymhwyso ac nad yw'r amser a gymerir i gyflawni'r safonau sefydlu yn adlewyrchu o effeithiolrwydd yr ysgol yn unig.

Cwestiwn 3 – O fis Medi 2023, a ddylai fod yn ofynnol i'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso gwblhau cyfnod o gyflogaeth barhaus mewn un ysgol am o leiaf un tymor / dau hanner tymor yn olynol (neu gyferwerth ar gyfer gweithwyr rhan-amser) ar ryw adeg yn eu cyfnod sefydlu?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	---	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno y byddai hyn yn fuddiol, i gynnal cysondeb o ran profiadau a chymorth. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar *ansawdd* y cymorth a ddarperir gan yr ysgol a'r mentor sefydlu. Mae cyfnod o chwe wythnos yn galluogi athrawon sydd newydd gymhwyso i gynllunio ar gyfer dilyniant o wersi. Byddai hyn yn cynorthwyo'r athro sydd newydd gymhwyso i ddatblygu a chynnal ei arferion mewn meysydd pwysig, fel cynllunio i ddiwallu anghenion disgyblion ag ystod o alluoedd, cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau a datblygu eu hymagweddau at asesu.

Cwestiwn 4 – A ddylai canlyniad y cyfnod sefydlu gael ei farnu yn bennaf yn ôl gallu athro sydd newydd gymhwyso i ddangos arfer effeithiol a bod yn enghraifft o'r safonau proffesiynol? (O dan y trefniant hwn, ni fyddai'r gofyniad i gwblhau a chofnodi sesiynau cyflogaeth unigol yn angenrheidiol ar gyfer athrawon cyflenwi tymor byr mwyach.)

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	---	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno mewn egwyddor y gall datblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon sydd newydd gymhwyso amrywio o un unigolyn i'r llall, ac y bydd yn digwydd dros wahanol rychwantau amser. Fodd bynnag, mae angen barnu cynnydd yr athro sydd newydd gymhwyso yn deg, yn gywir ac yn gyfannol.

Mae angen i bawb sy'n asesu athrawon sydd newydd gymhwyso fod yn ymwybodol o sut beth yw cynnydd yn erbyn y safonau (heb i hyn fod yn fformiwläig neu'n atomyddol). O ran cymorth pwrpasol, mae angen cydnabod y gallai rhai athrawon sydd newydd gymhwyso fod wedi cyrraedd agweddau ar y safonau sefydlu yn eu AGA. Ni ddylai prosesau asesu fod yn rhy feichus i athrawon sydd newydd gymhwyso na mentoriaid, ond dylent fod yn gefnogol o gynnydd athrawon sydd newydd gymhwyso. Dylai cynorthwyo hunanfyfrio athrawon sydd newydd gymhwyso fod yn agwedd bwysig ar y rhaglen sefydlu. Mae angen i asesu fod yn deg, yn drylwyr ac yn wrthrychol. Dylai sicrhau ansawdd asesu fod yn weladwy, a dylid ei dderbyn gan yr holl randdeiliaid.

Cwestiwn 5 – A ddylid ailgyflwyno gofyniad i gwblhau cyfnod sefydlu o fewn ffenestr bum mlynedd o ennill statws athro sydd newydd gymhwyso (SAC)?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno mewn egwyddor y dylai fod terfyn amser y mae'n rhaid cwblhau'r cyfnod sefydlu ynddo. Mae pum mlynedd yn ymddangos yn 'ffenestr' resymol. Fodd bynnag, i'r athrawon sydd newydd gymhwyso nad ydynt yn cwblhau'r cyfnod sefydlu o fewn y cyfnod hwn, rydym yn awgrymu y gallai fod yna 'gwrs diweddarau' i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheiny sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn addysgu.

Cwestiwn 6 – A ddylai athrawon sydd newydd gymhwyso allu cyfrif amser addysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion sy'n addysgu'r Cwricwlwm newydd i Gymru tuag at eu cyfnod sefydlu?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno mewn egwyddor. Rydym yn awgrymu y gallai'r corff priodol sicrhau bod yr athro sydd newydd gymhwyso yn gallu bodloni'r safonau sefydlu yn yr UCD, a threfnu i'r athro sydd newydd gymhwyso dreulio amser mewn lleoliad ysgol ategol, lle mae angen.

Cwestiwn 7 – A ddylid gwahanu rôl y corff priodol oddi wrth rôl y cydlynnydd sefydlu i sicrhau bod dyletswyddau wedi eu gwahanu'n glir?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Byddai hyn yn fuddiol at ddibenion atebolrwydd a sicrhau ansawdd. Mae'n hanfodol sicrhau ansawdd trefniadau sefydlu yn drylwyr i sicrhau bod y rhaglen yn diwallu anghenion athrawon sydd newydd gymhwyso, ac yn cefnogi blaenoriaethau strategol cenedlaethol.

Efallai bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried bod Estyn yn chwarae rôl mewn sicrhau bod y cyfnod sefydlu yn cael ei werthuso'n wrthrychol a thrylwyr ledled y wlad yn gyson, ochr yn ochr â chylch o arolygiadau o addysg gychwynol athrawon i ysgogi gwelliant ar draws y system.

Cwestiwn 8 – A ddylai'r penderfyniad ynglŷn â chanlyniad y cyfnod sefydlu gael ei wneud gan y mentor sefydlu, gyda gwirwyr allanol yn ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd ac yn delio ag achosion ffiniol ar ran y corff priodol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Gweler sylwadau o dan gwestiwn 9

Cwestiwn 9 – A ddylid ariannu rôl mentor sefydlu a'i chyflawni gan fentoriaid hyfforddedig sydd (lle bo modd) yn aros gyda'r athro sydd newydd gymhwyso am ei gyfnod sefydlu?

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	---	-----------	--------------------------	---------------------------------	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae rôl y mentor sefydlu yn hanfodol i ddatblygiad llwyddiannus yr athro sydd newydd gymhwyso. Mae ansawdd a chysondeb y cymorth yr un mor bwysig. Yn ein hadroddiad arolwg, Y Continwwm Dysgu Proffesiynol: Mentora mewn Addysg Gychwynnol Athrawon, rydym yn nodi cryfderau a gwendidau cyffredin mewn mentora.

Dylai mentoriaid:

- gael amser dynodedig, gwarchoddedig i gynorthwyo eu mentoreion
- ymgymryd â hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i fentora a hyfforddi'n llwyddiannus, yn hytrach na chwblhau dogfennau
- meddu ar ddealltwriaeth dda o ymagweddau at ddatblygiad athrawon

Rydym yn sylwi bod mentoriaid effeithiol yn aml yn ymgymryd yn weithredol â gweithgareddau dysgu proffesiynol, ymchwil, neu astudio ar lefel uwch. Er nad yw'r cyfleoedd dysgu hyn bob amser wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â mentora athrawon, gall y mentoriaid hyn drosglwyddo eu dysgu i ystyried sut mae myfyrwyr yn datblygu eu haddysgu. Mae'r mentoriaid hyn yn defnyddio eu medrau myfyrio a dadansoddi beirniadol i gynorthwyo athrawon sy'n datblygu. Maent yn fodolau rôl da o ran dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa.

[Y continwwm dysgu proffesiynol: mentora mewn addysg gychwynnol athrawon \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

Cwestiwn 10 – Ac eithrio'r gofyniad arfaethedig i'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso ymgymryd â chyfnod gwaith parhaus mewn un ysgol am o leiaf un tymor, neu ddau hanner tymor yn olynol (neu gyfwerth os yw'n rhan-amser), ydych chi'n ystyried y dylid gweithredu'r newidiadau arfaethedig i'r trefniadau sefydlu sy'n destun ymgynghoriad, yn barod ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2022/23? Ar gyfer unrhyw gynnig rydych chi'n ystyried na ddylid ei weithredu ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2022/23, amlinellwch eich rhesymau pam.

Cytuno	✓	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	✓
--------	---	-----------	--------------------------	---------------------------------	---

Sylwadau ategol

Byddai'n ymddangos bod hon yn raddfa amser uchelgeisiol, o ystyried bod angen cynllunio'r rhaglen sefydlu yn llawn, bod angen hyfforddi mentoriaid a bod rhaid i

awdurdodau, consortia rhanbarthol a phartneriaethau AGA gydweithio. Fodd bynnag, mae angen dybryd i sicrhau bod sefydlu yn gefnogol a chyson.

Cwestiwn 11 – Amlinellwch unrhyw gymorth penodol neu gyfleoedd dysgu proffesiynol y dylid trefnu eu bod ar gael yn ystod y cyfnod gyrfa cynnar.

Sylwadau ategol

Mae'n hanfodol bod dysgu mewn cyfnod sefydlu wedi'i gysylltu'n gadarn â dysgu mewn cyfnod sefydlu: mae athrawon sydd newydd gymhwyso yng Nghymru wedi arfer â ffordd o ddysgu sy'n cyfuno theori ac arfer. Mae'r holl bartneriaethau AGA yn darparu profiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n archwilio ymchwil a theori addysgol o fewn cyd-destun ymarferol yn yr ysgolion arweiniol. Mae'n bwysig fod sefydlu yn darparu parhad yn y ffordd hon o ddysgu, yn hytrach na chynnig profiadau 'ar eu pen eu hunain' neu 'nad ydynt yn eu cyd-destun'. Dylai dysgu ym mlwyddyn yr athro sydd newydd gymhwyso ddarparu profiadau dysgu strwythuredig a chymorth gan ymarferwyr a mentoriaid effeithiol. Dylai fod ffocws ar ddatblygu medrau ymchwil ac ymholi athro sydd newydd gymhwyso a chyfleoedd i athrawon sydd newydd gymhwyso ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain trwy ymholi ar raddfa fach, yn agos at arfer.

Dylai'r cyfnod sefydlu gynnwys cymorth pwrpasol ac elfennau hanfodol.

Dylai cymorth pwrpasol ystyried anghenion dysgu'r unigolyn. Dylid cael y rhain o fyfyrddodau'r athro sydd newydd gymhwyso ei hun ar ei gynnydd a thargedau a osodwyd gan fentoriaid AGA. Gallai hyn ddibynnu ar y cyd-destun hefyd (er enghraifft, addysgu mewn ysgol sydd â chyfran uchel o ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol).

Dylai dysgu hanfodol fod yn gyffredin i'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso, a dylai gwmpasu'r dysgu newydd sydd ei angen ar gyfer yr athro newydd. Dylai'r dysgu hwn ddarparu parhad rhwng dysgu yn y rhaglen AGA a dysgu yn ystod y blynyddoedd addysgu cyntaf. Dylai'r craidd dysgu cyffredin hwn ffurfio cynnwys rhaglen genedlaethol, a dylai gynnwys agweddau fel:

- Datblygu medrau cynllunio, gyda phwyslais ar fedrau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiadau ar gyfer cynllunio o fewn cyd-destun y Cwricwlwm i Gymru; cynllunio gyda phobl eraill.
- Datblygu addysgeg - arfer effeithiol bob dydd; datblygu a dyfnhau gwybodaeth ac addysgeg sector a phwnc; gwahaniaethu effeithiol; addysgeg effeithiol i gymell a chefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion dros gyfnod (disgyblion mwy abl a thalentog, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, ac ati); deall rhwystrau rhag dysgu; gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr eraill; ymestyn medrau ac addysgeg yn y Gymraeg.
- Cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd a chymwyseddau digidol disgyblion, a'u medrau Cymraeg.
- Datblygu arfer asesu
- Orlhain cynnydd disgyblion a defnyddio gwybodaeth o fonitro.

- Datblygu medrau ymholi proffesiynol – datblygu medrau ymholi i gefnogi addysgu a dysgu o fewn cyd-destun penodol; gweithio gyda phobl eraill mewn dysgu proffesiynol; gweithio o fewn diwylliant dysgu proffesiynol.
- Deall dilyniant gyrfa; gweithio tuag at nodau proffesiynol; datblygu medrau arwain.
- Gofal bugeiliol; rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol am roi gofal, cymorth ac arweiniad i ddisgyblion.
- Lles athrawon, a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Mae'r agweddau hanfodol hyn yn dod o feysydd cyffredin i'w datblygu yn ein gwaith arolygu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn AGA (gweler [Adroddiad Blynyddol Estyn 2019-2020 \(llyw.cymru\)](#))

Dylai cyfnod sefydlu ddarparu cyfleoedd ar gyfer addysgu mewn timau a chysgodi hefyd. Dylai'r holl athrawon sydd newydd gymhwyso gael cyfleoedd i addysgu ochr yn ochr ag ymarferwyr effeithiol. Dylid rhoi cymorth iddynt ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr ysgol trwy gysgodi cydweithwyr profiadol, er enghraifft gweithio ochr yn ochr â thiwtor dosbarth, neu gyfarfod â rhieni ar y cyd ag aelod arall o staff.

Cwestiwn 12 – Hoffem wybod beth yw eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newidiadau arfaethedig i sefydlu yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Byddai pwyslais ychwanegol ar annog ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r cysylltiadau cryf sydd ganddynt eisoes i weithio gyda'i gilydd i ddarparu ystod eang o brofiadau ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso yn ddatblygiad cadarnhaol. Efallai na fyddent yn gwneud hyn fel arall mewn un ysgol (sy'n aml yn fach). Byddai hefyd yn fanteisiol i athrawon sydd newydd gymhwyso sy'n ymarfer mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fod â rhywfaint o brofiad o weithio mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn ehangu eu profiadau a'u dealltwriaeth o wahanol ymagweddau, materion a heriau.

Mae'n bwysig bod yr holl ddeunyddiau, yn ddieithriad, gan gynnwys deunyddiau ymchwil, ar gael i athrawon sydd newydd gymhwyso yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.

Cwestiwn 13 – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid newid y cynigion i naill ai lleihau'r effaith negyddol neu gynyddu'r effaith gadarnhaol ar:

- gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 14 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd amdanynt.

Yn ystod y cyfnod sefydlu, dylid gwneud defnydd effeithiol o'r ysgolion arweiniol ar gyfer AGA. Rydym yn datblygu carfan gref o 'ysgolion hyfforddi' yng Nghymru ac mae angen i ni wneud y defnydd gorau o'r adnodd hwn. Mae potensial yn yr ysgolion arweiniol i ddarparu cyd-destun amgen y gall athrawon sydd newydd gymhwyso arsylwi arfer dda oddi mewn iddo, a gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr effeithiol. Mae athrawon ac arweinwyr yn yr ysgolion hyn hefyd yn datblygu eu harbenigedd fel addysgwyr athrawon, ac yn deall cynnwys a modelau cyflwyno rhaglenni AGA. Hefyd, gallai'r ysgolion arweiniol ddarparu cyfleoedd i athrawon sydd newydd gymhwyso archwilio agweddau ar addysgeg, a gofod diogel i brofi syniadau a gwneud camgymeriadau. Mae llawer o'r ysgolion hyn hefyd yn dangos beth mae'n ei olygu i fod yn sefydliad dysgu, sy'n hanfodol os yw athrawon sydd newydd gymhwyso am ddeall beth mae'n ei olygu i ddatblygu eu medrau ar gyfer dysgu proffesiynol trwy gydol gyrfa.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych aros yn ddienw, ticiwch yma: